# SENEDD CYMRU

## Cod Ymddygiad ar Safonau Ymddygiad Aelodau o'r Senedd

### Rhan 1 - Cyflwyniad a Statws y Cod

1. Mae'r Cod Ymddygiad hwn (y “Cod”) yn cynnwys:

   Rhan 1 Cyflwyniad a statws y Cod

   Rhan 2 Dehongli ac Egwyddorion Cyffredinol

   Rhan 3 Safonau Ymddygiad Personol yr Aelodau

2. Mae'r Cod yn nodi’r safonau ymddygiad sy’n ofynnol gan Aelodau o'r Senedd, ac mae'n God sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelodau o'r Senedd at ddibenion Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009. Mabwysiadwyd y Cod trwy benderfyniad y Senedd ar 24 Mawrth 2021.

3. Mae’r Llywydd a chadeiryddion pwyllgorau fel arfer yn ymdrin ag ymddygiad Aelodau yn ystod sesiynau llawn y Senedd ac mewn pwyllgorau trwy ddefnyddio Rheolau Sefydlog y Senedd sy'n ymwneud â chynnal trefn yn ystod trafodion. Os bydd y Llywydd neu gadeirydd y pwyllgor, wrth ymdrin â mater o'r fath, o'r farn bod angen ymchwilio i'r ymddygiad ymhellach neu’n llawnach, gall gyfeirio'r mater at Gomisiynydd Safonau'r Senedd.

4. Yn ogystal â’r Cod hwn, rhaid i Aelodau gydymffurfio â Rheolau Sefydlog y Senedd, gan gynnwys ei Rheolau Sefydlog sy’n ymwneud â datgan a chofrestru buddiannau ariannol a buddiannau eraill ac aelodaeth o gymdeithasau. Gellir cyfeirio achosion honedig o dorri'r Rheolau Sefydlog hyn at Gomisiynydd Safonau'r Senedd i ymchwilio iddynt. Am y rheswm hwn, nid yw'r Cod yn cynnwys Rheol benodol ar ddatgan a chofrestru buddiannau o'r fath.

5. Gall Comisiwn y Senedd gyhoeddi canllawiau o bryd i'w gilydd i gynorthwyo Aelodau a'u staff i gydymffurfio â'r Cod, a gall Comisiynydd Safonau’r Senedd roi sylw i ganllawiau o'r fath wrth ystyried unrhyw gŵyn o fethiant i gydymffurfio â darpariaethau'r Cod.

6. Mae'r Cod yn gymwys i Aelodau sy'n dal swydd gyhoeddus Aelod o'r Senedd bob amser, gan gynnwys bywydau personol a phreifat yr Aelodau.

7. Nid yw'r Cod yn gymwys:

   (i) i’r Llywydd neu gadeirydd pwyllgor mewn perthynas ag arfer y swyddogaethau a roddir gan ddeddfiad, y Senedd neu’r Rheolau Sefydlog.

(ii) pan fo Aelod yn gweithredu'n gyfan gwbl yn rhinwedd ei swydd fel Prif Weinidog Cymru, un o Weinidogion Cymru neu fel Cwnsler Cyffredinol a bod ei ymddygiad yn cael ei lywodraethu gan God Gweinidogion Cymru fel y'i diffinnir yn adran 8(2)(a) o'r Mesur.

(iii) mewn perthynas â safon y gwasanaeth a'r canlyniadau a gafwyd gan Aelod.

**Rhan 2 - Dehongli ac Egwyddorion Cyffredinol**

8. Rhaid i Aelodau ymddwyn yn unol â'r Egwyddorion canlynol (y cyfeirir atynt yn y Cod fel “yr Egwyddorion Cyffredinol”):

**Anhunanoldeb**

Rhaid i Aelodau wneud penderfyniadau er lles y cyhoedd yn unig. Ni chânt wneud penderfyniadau er mwyn iddynt hwy neu unrhyw berson arall elwa’n ariannol neu’n faterol, a hynny mewn modd amhriodol neu modd nas caniateir.

**Uniondeb**

Ni chaiff Aelodau eu rhoi eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall tuag at unigolion neu gyrff allanol a allai geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau swyddogol. Rhaid i Aelodau bob amser ymddwyn mewn ffordd na fydd yn tanseilio ffydd a hyder y cyhoedd yn uniondeb y Senedd ac osgoi unrhyw ymddygiad a fydd yn dwyn anfri ar y Senedd neu ar ei Haelodau yn gyffredinol.

**Gwrthrychedd**

Wrth gyflawni eu busnes, rhaid i Aelodau wneud penderfyniadau yn ôl haeddiant.

**Atebolrwydd**

Mae Aelodau yn atebol i’r cyhoedd am eu penderfyniadau a’u gweithredoedd a rhaid iddynt wneud eu hunain yn destun pa bynnag archwiliad sy’n addas i’w swydd gyhoeddus fel aelodau o’r Senedd.

**Bod yn agored**

Rhaid i Aelodau fod mor agored â phosibl ynghylch yr holl benderfyniadau a gweithrediadau a wneir ganddynt. Rhaid iddynt roi rhesymau dros eu penderfyniadau a chyfyngu ar wybodaeth dim ond yn unol â gofynion statudol, Rheolau Sefydlog y Senedd a rheolau sy'n rhwymo Aelodau o'r Senedd a'u staff, neu pan fo budd y cyhoedd ehangach yn amlwg yn mynnu hynny.

**Gonestrwydd**

Rhaid i Aelodau fod yn onest, rhaid iddynt ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a rhaid iddynt gymryd camau i ddatrys unrhyw achosion o wrthdaro a allai godi mewn modd sy'n diogelu buddiannau cyhoeddus.

**Parch**

Ni chaiff Aelodau ymddwyn mewn modd sy'n lleihau cyfle cyfartal, rhaid iddynt barchu urddas pobl eraill a pheidio ag ymddwyn yn wahaniaethol neu mewn modd nas dymunir.

**Arweinyddiaeth**

Rhaid i Aelodau hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn trwy arweinyddiaeth a dangos esiampl, a bod yn barod i herio ymddygiad gwael lle bynnag y mae'n digwydd.

9. Mae'r Safonau Ymddygiad Personol a nodir yn Rhan 3 o'r Cod hwn i'w dehongli yn unol â'r Egwyddorion Cyffredinol ac mae torri'r Cod yn golygu torri unrhyw un o'r safonau a nodir yn Rhan 3 o'r Cod hwn.

10. Yn y Cod hwn:

(1) ystyr "bwlio" yw ymddygiad tramgwyddus, bygythiol, maleisus neu sarhaus; neu gam-drin neu gamddefnyddio pŵer mewn ffordd sy'n bwriadu tanseilio, bychanu, beirniadu'n annheg neu anafu rhywun, naill ai trwy ymddygiad parhaus neu un weithred annerbyniol iawn;

(2) mae "gwahaniaethu" yn cynnwys ymddygiad sy'n gwahaniaethu yn erbyn unrhyw berson ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, barn wleidyddol a dewis iaith;

(3) ystyr "aflonyddu" yw ymddygiad digroeso sydd â'r diben neu'r effaith o darfu ar urddas unigolyn neu sy'n creu amgylchedd bygythiol, gelyniaethus, diraddiol, bychanol neu sarhaus i unigolyn ac sy'n cynnwys aflonyddu rhywiol;

(4) ystyr "ymddygiad nas dymunir" yw ymddygiad nad yw'n cael ei annog na'i dderbyn gan y dioddefwr, ni waeth a fwriadwyd iddo beri tramgwydd, ac ni waeth a yw'n digwydd mwy nag unwaith neu a yw'n ddigwyddiad unigol; a

(5) ystyr "y Mesur" yw Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 (*mccc 4*.)

11. Wrth ddehongli a chymhwyso'r diffiniadau o "fwlio", aflonyddu", "gwahaniaethu" ac "ymddygiad nas dymunir":

(1) mae bwriad y person y gwneir cwyn amdano yn amherthnasol.
(2) y prawf yw a fyddai person rhesymol a diduedd o'r farn y byddai'r ymddygiad yn dod o fewn un o'r diffiniadau gan roi sylw i gyd-destun yr ymddygiad y gwneir cwyn amdano.
(3) rhaid parchu hawliau perthnasol y person y gwneir cwyn amdano a'r person sy'n ddarostyngedig i'r ymddygiad o dan sylw o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**Rhan 3 - Safonau Ymddygiad Personol Aelodau**

12. Rhaid i Aelodau gydymffurfio â'r Rheolau Ymddygiad canlynol:

**Rheol 1**

Rhaid i Aelodau gynnal yr Egwyddorion Cyffredinol.

**Rheol 2**

Rhaid i Aelodau weithredu'n onest.

**Rheol 3**

Ni chaiff Aelodau ymddwyn mewn modd sy'n dwyn anfri ar y Senedd neu ei Haelodau yn gyffredinol.

**Rheol 4**

Ni chaiff Aelodau ymddwyn mewn modd nas dymunir, aflonyddu, bwlio na gwahaniaethu.

**Rheol 5**

Rhaid i Aelodau gynnal y gyfraith droseddol. Ystyrir bod Aelod wedi methu â chynnal y gyfraith droseddol dim ond os yw'n cael ei euogfarnu o drosedd neu os yw'n cyfaddef trosedd yn ffurfiol.

**Rheol 6**

Ni chaiff Aelodau ymosod yn bersonol ar unrhyw un — mewn unrhyw ohebiaeth (naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, ar ffurf electronig neu drwy unrhyw gyfrwng arall) — mewn modd a fyddai'n cael ei ystyried yn ormodol neu'n ymosodol gan berson rhesymol a diduedd, gan ystyried y cyd-destun y gwnaed y sylwadau ynddo.

**Rheol 7**

Rhaid i Aelodau ddatrys unrhyw achosion o wrthdaro sy'n codi rhwng eu buddiannau preifat a budd y cyhoedd ar unwaith, ac o blaid budd y cyhoedd.

**Rheol 8**

Rhaid i Aelodau gydymffurfio â'r rheolau a wneir o bryd i'w gilydd gan Glerc a Phrif Weithredwr y Senedd fel Prif Swyddog Cyfrifyddu Comisiwn y Senedd ar y defnydd o adnoddau a ddarperir i Aelodau gan Gomisiwn y Senedd.

**Rheol 9**

Ni chaiff Aelodau gamddefnyddio taliadau, lwfansau nac adnoddau sydd ar gael iddynt o dan benderfyniad Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd.

**Rheol 10**

Ni chaiff Aelodau dderbyn unrhyw gymhelliant ariannol, rhodd, lletygarwch neu fudd arall fel cymhelliant neu wobr am gyflawni eu swyddogaethau fel Aelodau o'r Senedd, am ddylanwadu ar drafodion yn y Senedd, neu a allai fel arall ymddangos i berson rhesymol a diduedd i ddylanwadu, neu o bosibl ddylanwadu ar eu gweithredoedd fel Aelod, ac eithrio i'r graddau y mae eu derbyn yn cydymffurfio â'r ddarpariaeth a wneir mewn Rheolau Sefydlog.

**Rheol 11**

Ni chaiff Aelodau ddefnyddio na cheisio defnyddio eu statws fel Aelod i roi mantais neu driniaeth ffafriol i'w hunain neu i unrhyw berson arall, neu i osgoi anfantais neu greu anfantais i rywun arall.

**Rheol 12**

Rhaid i Aelodau fod yn agored ac yn dryloyw gydag Aelodau eraill, swyddogion Comisiwn y Senedd a swyddogion unrhyw gorff neu awdurdod arall, wrth ddatgelu unrhyw weithgareddau a wneir mewn perthynas â sefydliad, neu ar ran unigolyn neu sefydliad, y mae gan yr Aelod berthynas ariannol ag ef, gan gynnwys gweithgareddau nad ydynt o reidrwydd yn destun cofnodion cyhoeddus megis cyfarfodydd a swyddogaethau anffurfiol.

**Rheol 13**

Ni chaiff Aelodau weithredu mewn ffordd sy’n ymyrryd yn amhriodol, y bwriedir iddo ymyrryd yn amhriodol neu y mae’n debygol o ymyrryd yn amhriodol, ar berfformiad y Senedd neu bwyllgor y Senedd wrth ei gwaith, na gallu Aelod, unrhyw aelod o staff Aelod neu swyddogion a gweithwyr Comisiwn y Senedd, neu ddyletswyddau Comisiynydd Safonau’r Senedd i gyflawni eu dyletswyddau.

**Rheol 14**

Ni chaiff Aelodau ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei ystyried yn ymddygiad sy’n rhoi pwysau ar unigolion i:

(i) gyfaddawdu amhleidioldeb gwleidyddol Comisiwn y Senedd neu'r Gwasanaeth Sifil;
(ii) torri Cod Ymddygiad Staff Comisiwn y Senedd;
(iii) torri Cod y Gwasanaeth Sifil;

(iv) torri Cod Ymddygiad Staff Cymorth; nac
(v) ymdrin â cheisiadau am wybodaeth ac eithrio fel y nodir yng Nghod Ymarfer y Senedd ar Fynediad Cyhoeddus i Wybodaeth.

**Rheol 15**

Ni chaiff Aelodau, mewn perthynas â datgelu gwybodaeth:

(i) sy’n gyfrinachol neu wedi’i farcio i’w ddiogelu fel arall, ei datgelu ac eithrio pan fo awdurdod i wneud hynny gan y person neu’r awdurdod sy’n rheoli’r wybodaeth neu pan fo angen neu ganiatâd i’w datgelu yn ôl y gyfraith;
(ii) defnyddio’r wybodaeth a dderbynnir yn gyfrinachol heblaw yn rhinwedd eu swydd fel Aelod o’r Senedd, ac ni chânt ddefnyddio, neu geisio defnyddio, gwybodaeth o’r fath at ddibenion maleisus, dibenion mantais ariannol neu unrhyw fantais bersonol arall; nac
(iii) atal unrhyw berson rhag cael mynediad at wybodaeth fel y caniateir yn ôl y gyfraith.

**Rheol 16**

Ni chaiff Aelodau annog Aelod arall i fynd yn groes i unrhyw un o'r Safonau Ymddygiad Personol hyn, gan gynnwys y Rheolau mewn perthynas â chwynion ac ymchwiliadau safonau.

**Rheol 17**

Rhaid i Aelodau gydweithredu bob amser â Chomisiynydd Safonau'r Senedd wrth gynnal unrhyw ymchwiliad ac unrhyw ystyriaeth ddilynol o'r gŵyn gan Bwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd.

**Rheol 18**

Rhaid i Aelodau gydymffurfio â'r gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i gwynion yn erbyn Aelodau.

**Rheol 19**

Ni chaiff Aelodau ddatgelu manylion mewn perthynas â:

(i) unrhyw ymchwiliad gan Gomisiynydd Safonau'r Senedd ac eithrio pan fydd wedi'i awdurdodi gan y gyfraith i wneud hynny, neu gan Gomisiynydd Safonau'r Senedd neu awdurdod ymchwilio arall, na
(ii) trafodion Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd mewn perthynas â chŵyn oni bai eu bod wedi'u hawdurdodi gan y gyfraith i wneud hynny, neu gan y Pwyllgor.

**Rheol 20**

Ni chaiff Aelodau lobïo aelod o Bwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd, na Chomisiynydd Safonau’r Senedd, na’u staff, mewn ffordd y cynllunnir neu y bwriedir

iddi ddylanwadu'n amhriodol ar ei ystyriaeth ynghylch p’un a dorrwyd y Cod Ymddygiad ai peidio, neu mewn perthynas â gosod cosb.

**Rheol 21**

Ni chaiff Aelodau geisio dylanwadu, annog, cymell na cheisio cymell, person sy'n gwneud cwyn mewn ymchwiliad i dynnu’r cwyn yn ôl neu newid ei gŵyn, neu unrhyw dyst neu berson arall sy'n cymryd rhan mewn cwyn i dynnu tystiolaeth yn ôl neu newid ei dystiolaeth.

**Rheol 22**

Ni chaiff Aelodau gamliwio unrhyw argymhelliad a wnaed gan Bwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd mewn perthynas ag unrhyw gŵyn y mae wedi'i hystyried, neu unrhyw ganfyddiadau neu adroddiad gan Gomisiynydd Safonau’r Senedd.

**Rheol 23**

Ni chaiff Aelodau wneud cwynion gwamal, blinderus neu sy’n amlwg yn ddi-sail i Gomisiynydd Safonau'r Senedd.

**Rheol 24**

Rhaid i Aelodau gymryd camau rhesymol i sicrhau bod eu staff, wrth weithredu ar eu rhan, hefyd yn cynnal ac yn gweithredu yn unol â'r Rheolau hyn a'r Egwyddorion Cyffredinol.